# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref**

**Canolfan Gymunedol Neuadd Dowlais**
**Crownhill**
**Llanilltud Faerdref**
**Pontypridd**
**CF38 2NA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**6 o Dachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am 24 o blant hyd at 12 oed. Cynigir y gwasanaeth i blant cyn-ysgol rhwng dwy a thair oed ac mae wedi'i leoli yng nghanolfan gymunedol yn Llanilltud Faerdref. Mae'n gweithredu yn ystod y tymor yn unig o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9.30 a 13.00. Y person cofrestredig yw Catherine Sturman a'r person â chyfrifoldeb yw Pam Lloyd, ac mae'r ddwy ohonynt yn cael eu cyflogi yn y feithrinfa. Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw hwn a chynhaliwyd yr arolygiad gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Caiff y plant ddewis o amrywiaeth dda o brofiadau dysgu llawn hwyl. Maent yn cael gofal gan dîm o staff ymroddedig sy'n gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion asesedig y plant. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi ymgartrefu'n dda ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u gofalwyr a phlant eraill. Caiff y gwasanaeth ei reoli gan arweinydd profiadol a'i dirprwy. Y person â chyfrifoldeb sy'n sicrhau y caiff systemau a phrosesau eu hadolygu, ond mae angen monitro'r broses hon yn rheolaidd. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn groesawgar er mai prin yw'r cyfleusterau awyr agored.

**2. Gwelliannau**

Mae system ar waith er mwyn asesu anghenion datblygu plant sy'n nodi bod targedau bellach ar waith.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae argymhellion sy'n ymwneud â diweddaru hyfforddiant, rhai gweithdrefnau gofal a systemau rheoli, wedi'u nodi yn yr adroddiad ac wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn cael gwasanaeth sy'n darparu gofal magwrus a phrofiadau cadarnhaol. Mae cydberthnasau cefnogol a chynnes yn amlwg ac mae'r plant yn cael croeso. Mae adnoddau addas a gweithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad cyffredinol ar gael i'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Gwelsom fod trefn y sesiynau yn gyfarwydd iawn i'r plant ac nid oes ganddynt lawer o gyfleoedd i symud o un gweithgaredd i'r llall. Gwelsom nad oedd y plant, nad oeddent am gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, bob amser yn cael dewis chwarae gydag adnoddau amgen. Mae rhywfaint o amser rhydd lle y gall y plant chwarae a rhedeg o gwmpas ac mae'r plant yn croesawu ac yn mwynhau'r cyfleoedd hyn. Lle mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau'r sesiynau pen bwrdd sydd wedi'u harwain gan yr oedolion, gwnaethom drafod y syniad o beidio â chlirio'r holl adnoddau er mwyn galluogi mwy o ddewis rhydd i'r plant.

Ni chaiff dewisiadau'r plant eu hystyried bob amser wrth gynllunio gweithgareddau.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn cael gofal ymatebol gan y gweithwyr allweddol sy'n eu hadnabod yn dda.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth am yr hyn mae'r plant yn eu hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. Caiff y plant eu monitro'n agos a darperir cysur emosiynol a thawelwch meddwl pan fydd angen. Mae'r plant nad ydynt yn setlo ac yn drist wrth adael eu rhieni yn cael eu cysuro ac yn cael gofal un i un. Caiff rhieni eu ffonio i fynd â'r plant adref os bydd staff yn teimlo bod angen gwneud hyn. Clywsom blant yn trafod eu teuluoedd gyda'r staff ac roedd yn amlwg bod y plant yn ymddiried yn eu gofalwyr. Gwelsom enghreifftiau o waith y plant yn cael eu harddangos ar y waliau sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn a gwerth iddynt.

Caiff llesiant emosiynol y plant ei hyrwyddo drwy gysondeb y gofal a ddarperir.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'u gofalwyr.

Mae'r plant yn y feithrinfa ar y camau cynnar o ran dysgu sut i reoli eu hymddygiad. Ar y cyfan, roeddent wedi ymgartrefu ac yn gyfarwydd â threfn y dydd ac mae hyn yn rhoi strwythur i'w diwrnod. Gwnaethom arsylwi ar y plant yn chwarae gyda'i gilydd ar y cyd a gwelsom eu bod yn dysgu i gyfleu eu hanghenion. Roedd rhai plant yn ei chael

hi'n anodd aros pan oeddent am gael eitem ar unwaith, ond gyda chymorth y staff, maent yn datblygu dealltwriaeth am rannu eitemau a chymryd troeon. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd y staff yn eu hatgoffa am bethau yn addfwyn.

Mae'r plant yn cael budd o gysondeb y gofal a ddarperir i'w helpu i ddeall sut i reoli eu teimladau.

**1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i brofi amrywiaeth dda o weithgareddau.

Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau creadigol a defnyddio eu dychymyg. Roeddent yn canolbwyntio ar greu lluniau o goed gan ddefnyddio afalau a phaent ac roeddent yn cael ymdeimlad o gyflawniad pan oeddent wedi cwblhau'r gweithgaredd. Dywedodd un plentyn wrthym ei bod yn edrych ymlaen at ddangos y llun i'w rhieni. Gwnaethom nodi fod y plant yn falch o chwarae yn yr awyr agored ac yn dangos chwilfrydedd wrth chwilio am fadfallod a cherrig mân a oedd yn cuddio yn y tywod. Roedd y plant yn gyffrous i redeg a chwarae gyda theganau ag olwynion a si-sos dan do gan fod hwn yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio eu hegni. Gwnaethant hefyd fwynhau'r cyfle i chwarae offerynnau cerdd ar ddiwedd y sesiwn.

Caiff datblygiad cyffredinol y plant ei hyrwyddo gan ansawdd y profiadau a ddarperir.

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn datblygu ystod dda o sgiliau.

Mae'r plant yn cofrestru eu hunain pan fyddant yn cyrraedd y gwasanaeth drwy nodi eu henw ar dedi a'i roi mewn bocs. Cânt gyfleoedd da i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg drwy ganu rhigymau a chaneuon. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrannu'n hyderus ac yn dechrau cyfathrebu drwy ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg. Roedd y plant yn dangos brwdfrydedd dros gêm yn seiliedig ar iaith lle gofynnwyd iddynt adnabod anifeiliaid. Roedd pob un o'r plant yn gallu adnabod enwau Cymraeg anifeiliaid cyfarwydd a gwnaethant ofyn am gael ailadrodd y gêm ddwywaith. Caiff y plant eu cefnogi i feithrin rhai sgiliau hunan-help sy'n cynnwys gwisgo eu cotiau a thacluso ar ôl gweithgareddau. Roedd y plant i gyd yn newydd ac roedd y disgwyliad hwn yn newydd i lawer ohonynt. Wrth iddynt ymgartrefu mwy, maent yn cael mwy o gyfleoedd sy'n cynnwys arllwys eu diodydd eu hunain a defnyddio'r cyfleusterau toiled yn annibynnol.

Caiff hunanbach y plant ei wella gyda'r cyfleoedd a ddarperir i ddysgu a datblygu sgiliau annibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae rhai gweithdrefnau effeithiol ar waith sy'n sicrhau y caiff lles plant ei flaenoriaethu. Mae angen hyfforddiant ychwanegol ar staff er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddiogelu yn gyfredol. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau. Mae pob aelod o'r staff yn deall anghenion unigol y plant yn dda.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Dywedodd y ddau aelod o'r staff wrthym eu bod yn hyderus o ran adnabod a nodi risgiau i'r plant. Maent yn deall y weithdrefn o ran atgyfeirio unrhyw bryderon i'r awdurdod priodol. Roedd y cofnodion yn dangos y disgwylir i'r hyfforddiant diogelu gael ei ddiweddaru a dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod wrthi'n trefnu llefydd ar gyfer y ddau aelod o'r staff. Gwnaethom drafod bod angen cwblhau hyn cyn gynted â phosibl. Nid yw'r gwasanaeth wedi gwneud unrhyw atgyfeiriadau o ran diogelu. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw system ar waith er mwyn nodi unrhyw anafiadau y gall fod gan y plant eisoes pan fyddant yn cyrraedd y gwasanaeth a gwnaethom drafod gwerth y system hon a bod angen cynnwys llofnodion rhieni. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n briodol.

Rhoddir sylw da i'r gwaith o gynnal glendid a gwnaethom arsylwi ar y staff yn golchi byrddau a brwsio lloriau pan oedd angen.  Nid yw'r archwiliad, sy'n ffurfio rhan o ddogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru ar atal a rheoli heintiau, yn cael ei defnyddio yn y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd. Gwnaethom argymell y dylid cael gafael ar gopi a'i ddefnyddio i fonitro systemau glanhau.

Gwnaethom nodi bod cewynnau plant yn cael eu newid yn y neuadd a gwnaethom drafod pa mor briodol oedd y weithdrefn hon gyda'r person â chyfrifoldeb. Mae digon o le yn y cyfleusterau toiled a chytunwyd i gyflawni'r weithdrefn hon yn yr ardal hon yn y dyfodol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â pherchnogion yr adeilad i ddarparu system newid cewynnau yn yr ardal hon.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd da i'r plant ddysgu am ffyrdd iach o fyw. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled. Darperir cymorth i'w hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau brwsio dannedd bob dydd fel rhan o fenter hylendid deintyddol Cynllun Gwên.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy ddilyn y gweithdrefnau sydd ar waith.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn pennu ffiniau realistig ac yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant.

Mae'r staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth sy'n amlinellu pwysigrwydd strategaethau ymddygiad cadarnhaol er mwyn hyrwyddo llesiant y plant. Gwelsom eu bod yn gyson o ran dull gweithredu ac yn ystyriol o oed a cham datblygiad y plant wrth reoli materion ymddygiad. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn plygu lawr i lefel y plant a chynnal cyswllt llygaid a defnyddio llais tyner er mwyn tynnu sylw'r plant a oedd yn rhwystredig neu'n drist. Mae'r staff yn cynnal amgylchedd tawel ac mae hyn yn helpu'r plant i ymgartrefu ac ymlacio.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau'r plant o'r gwasanaeth.

**2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r staff yn ymateb i anghenion emosiynol a chorfforol y plant ac mae ganddynt systemau ar waith er mwyn hyrwyddo eu datblygiad.

Mae'r staff ar y camau cynnar o ddod i adnabod y plant fel unigolion. Gwelsom y staff yn eistedd ac yn bwyta gyda'r plant ac yn defnyddio'r pryd fel cyfle i gymdeithasu ac asesu anghenion yn anffurfiol. Mae gan bob plentyn ffeil datblygiad sy'n canolbwyntio'n fras ar saith maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae gweithwyr allweddol yn defnyddio arsylwadau i asesu anghenion datblygu'r plant ac i bennu targedau. Cynllunnir gweithgareddau er mwyn ymateb i anghenion a diddordebau plant unigol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio hirdymor, tymor canolig a byrdymor a oedd yn canolbwyntio ar themâu tymhorol. Mae'r gwasanaeth yn dathlu digwyddiadau diwylliannol amrywiol megis Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali, Calan Gaeaf a Dydd Gŵyl Dewi. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth i'r plant o rai traddodiadau y tu allan i'w profiadau eu hunain ac yn gwella eu gwybodaeth.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad a dysgu'r plant yn effeithiol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn y neuadd gymunedol yn Llanilltud Faerdref sy'n eiddo i bwyllgor rheoli gwirfoddol a'r pwyllgor hwnnw sy'n rheoli'r adeilad ac yn gyfrifol am y dasg o'i gynnal. Mae digon o le ar y safle ac mae wedi'i gynnal yn dda ac mae'n darparu cyfleoedd da i hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant. Prin yw'r cyfleusterau awyr agored.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae systemau effeithiol ar waith er mwyn cynnal amgylchedd diogel.

Cynhelir asesiadau risg ar bob ardal ac ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom restr wirio ddyddiol y mae'r staff yn ei defnyddio bob bore i fonitro'r cyfleusterau. Caiff cofnod o'r holl ymwelwyr ei gadw er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael mynediad heb awdurdod. Caiff cofrestr ei chadw er mwyn cofnodi presenoldeb y plant ac mae'r rhain hefyd yn cynnwys enwau'r staff sydd ar ddyletswydd fel tystiolaeth bod y cymarebau gofynnol yn cael eu cynnal. Caiff y drws ffrynt ei gau â bollt pan fydd y plant yn bresennol. Mae drws tân yn y neuadd a rhaid pwyso ar y bar i fynd allan os bydd argyfwng. Mae'r staff yn wyliadwrus ac yn monitro'r ardal hon. Gwnaethom drafod yr angen i roi asesiad risg ar waith er mwyn nodi'r risgiau a chofnodi'r camau y rhoddir ar waith er mwyn atal plant rhag agor y drws hwn. Caiff ymarferion tân eu cynnal bob tymor a'u cofnodi gyda'r wybodaeth briodol. Caiff y cyfarpar tân ei wirio gan gontractwr a'i drefnu gan bwyllgor rheoli'r adeilad. Gwelsom fod y cyfleusterau nwy, trydan a goleuadau mewn cyflwr da a chawsant eu gwasanaethu'n ddiweddar. Mae wyth rheiddiadur yn y neuadd ac mae pump ohonynt wedi'u gorchuddio ac yn amddiffyn y plant rhag cyffwrdd ynddynt pan fyddant yn boeth. Mae'r tri rheiddiadur arall yn cael eu 'ffensio' gyda chadeiriau. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod yn disgwyl i'r pwyllgor osod gorchuddion yn y dyfodol agos. Gwnaethom argymell y dylai argymhellion risg fod ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl gamau yn eu lle i ddiogelu plant rhag rheiddiaduron poeth.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff diogelwch y plant eu cynnal gyda systemau effeithiol a diogel ar waith.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r plant yn cael budd o amgylchedd sy'n groesawgar ac yn gyfeillgar.

Mae'r neuadd yn fawr ac yn agored ac mae wedi'i chynnal yn dda iawn. Cafodd ei pheintio'n ddiweddar. Mae'r feithrinfa yn gweithredu gwasanaeth 'rhoi popeth i gadw' gan fod grwpiau cymunedol eraill yn defnyddio'r neuadd yn ystod yr wythnos. Mae'r arweinwyr yn gosod yr adnoddau cyn i'r plant gyrraedd ac yn sicrhau bod y tymheredd yn briodol a bod y gweithgareddau wedi'u paratoi. Caiff adnoddau eu trefnu yn ardaloedd penodol ac mae'r holl ddodrefn o faint addas i'r plant eu defnyddio. Mae

ardal ddarllen gyda chlustogau er mwyn ymlacio yn ogystal â chornel cartref gydag adnoddau chwarae rôl wedi'u gosod. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau cylch ac mae'r cylch cadeiriau yn aros fel y mae er mwyn i'r plant ei ddefnyddio os bydd angen. Rhoddir sylw da i gadw'r toiledau yn lân ac yn ffres i'w defnyddio. Ni chaniateir i blant fynd i mewn i'r gegin ac mae'r drws yn cael ei gadw ar gau bob amser. Ceir mynediad i'r ardal awyr agored drwy ddrws tân ac mae'n cynnwys ardal balmantog fach sydd wedi'i hamgáu â rhes o gadeiriau o faint oedolion. Gwelsom yr asesiad risg ar gyfer yr ardal hon a oedd yn nodi bod y plant ond yn defnyddio'r ardal pan fydd wedi'i pharatoi'n llawn. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym nad yw'r plant yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gan y byddai'n hawdd i blentyn fynd y tu hwnt i'r rhwystr. Gwnaethom drafod bod angen i'r asesiad risg gynnwys yr holl beryglon posibl ac i nodi'n glir y systemau sydd ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i ennyn sylw'r plant. Mae angen goruchwyliaeth gyson pan fydd y plant yn defnyddio'r ardal awyr agored.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael budd o amrywiaeth o deganau a chyfarpar sy'n briodol i'w hanghenion a'u cam datblygu.

Gall y plant gael gafael ar yr adnoddau a'r teganau y mae'r staff yn eu gosod ymlaen llaw yn hawdd. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod eu hadnoddau ariannol i brynu cyfarpar newydd yn brin ac o ganlyniad, ni allant ychwanegu at y stoc. Gwneir defnydd da o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ar gyfer modelu geriach ac roedd yr eitemau a wnaed yn cynnwys robotiaid a chwt ci. Mae'r plant yn cael budd o faint y neuadd sy'n darparu cyfleoedd da ar gyfer chwarae rhagweithiol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod deunyddiau crefft ar gael bob amser a gwneir defnydd da o'r adnoddau hyn bob dydd. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod deunyddiau chwarae ar gael sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau, dolis a dillad gwisgo i fyny. Gwnaethom drafod bod angen i arddangosfeydd ac adnoddau adlewyrchu'r gymuned ehangach er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r rhan fwyaf o'r llyfrau sydd ar gael yn Gymraeg.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ansawdd yr adnoddau yn hyrwyddo datblygiad y plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i'r gwasanaeth ac yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl systemau a'r gweithdrefnau ar waith. Mae angen diweddaru nifer o ddogfennau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol ac yn gweithio gyda'i gilydd i bennu nodau pholisïau sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant.

Mae datganiad o ddiben ar waith ac mae angen ei diweddaru a'i newid i fodloni safon un y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gwnaethom drafod bod angen cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom nodi bod y rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn ddogfennau cyffredinol a gyflwynwyd gan yr asiantaeth genedlaethol sy'n cefnogi'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn deall bod angen adolygu'r dogfennau hyn er mwyn iddynt fod yn ddefnyddiol a bodloni gofynion deddfwriaethol, a rhaid eu bod yn ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth cyn y gellir eu defnyddio'n hyderus. Mae angen i wybodaeth sy'n ymwneud â chwynion fod yn gywir gyda chyfarwyddiadau clir ar sut y caiff unrhyw broblemau eu datrys, pwy sy'n rhan o'r gwaith hwn a'r broses.

Mae'r arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymdeimlad o ddiben. Mae angen diwygio'r dogfennau a'r gweithdrefnau hyn gryn dipyn er mwyn iddynt fod yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae angen sicrhau gwelliannau o ran hunanwerthuso'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer datblygiadau'r gwasanaeth.

Mae'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb yn gweithio gyda'i gilydd bob dydd ac yn trafod y broses o redeg y gwasanaeth yn rheolaidd. Gan na chaiff unrhyw gofnodion eu cadw ar y trafodaethau hyn, nid yw'n bosibl dilyn unrhyw gynnydd a chadarnhau strategaethau cynllunio. Nid oes system ar waith er mwyn hunanwerthuso'r gwasanaeth. Gwnaethom drafod bod angen llunio system er mwyn canfod barn y plant a'r rhieni. Bydd angen i'r sylwadau hyn ffurfio rhan o'r adroddiad gofynnol ar ansawdd y gofal y mae'n rhaid ei anfon atom bob blwyddyn. Bydd angen i'r adroddiad hefyd fyfyrio ar lwyddiannau a heriau'r flwyddyn a chynnwys cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf. Anfonwyd adroddiad atom nad oedd yn cynnwys y wybodaeth hon. Gwnaeth yr arweinwyr ymgysylltu'n llawn â'r broses arolygu ac roeddent yn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn ystod y sesiwn adborth.

Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod yn dilyn cyngor gan asiantaethau iechyd ac addysg o ran gweithio gyda phant unigol a'u hanghenion penodol.

Mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso.

**4.3. Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?**

Mae'r arweinwyr yn rheoli eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r person â chyfrifoldeb a'i dirprwy yn amlwg yn ymwybodol o'r tasgau y mae angen iddynt eu cyflawni bob dydd. Mae rhestr wirio ar waith ac maent yn dilyn honno er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn briodol cyn i'r plant gyrraedd. Caiff yr adnoddau eu gosod cyn i'r plant gyrraedd a chaiff gweithgareddau hefyd eu cynllunio ymlaen llaw. Gwnaethom edrych ar ffeiliau dau aelod o'r staff a gwelsom fod y wybodaeth ofynnol ar gael. Roedd y ddau aelod o'r staff yn meddu ar wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), prawf adnabod a chofnod o'u hanes cyflogaeth flaenorol. Mae cynllun wrth gefn ar waith er mwyn cyflenwi ar gyfer unrhyw absenoldeb staff a gwnaethom siarad â gweithiwr achlysurol er mwyn sicrhau bod ei gwiriad DBS yn ddilys a bod ganddi brofiad priodol. Mae'r gwasanaeth yn derbyn myfyrwyr ar leoliad o goleg lleol ac mae'r holl wiriadau ar waith ar gyfer yr unigolion hyn. Dengys cofnodion fod digon o staff cymwys a phrofiadol ar gael sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer yr amrywiaeth o blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r arweinwyr yn gweithio mewn ffordd systematig ac yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cymorth priodol.

**4.4. Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Mae'r arweinwyr yn meithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu da â phartneriaid.

Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r rhieni er mwyn nodi anghenion unigol y plant. Mae gan bob plentyn gontract ac mae'r rhieni yn cwblhau'r llyfr Amdana I. Mae'r pecyn croeso yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol i rieni ynghyd â datganiad o ddiben. Mae polisi drws agored ar waith lle y gall rhieni siarad â'r staff unrhyw bryd. Rhoddir gwybodaeth i rieni pan fyddant yn casglu eu plentyn. Gwnaethom siarad â phedwar rhiant a oedd wedi dweud wrthym eu bod yn hapus iawn â safon y gofal a bod y plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth. Dywedodd yr arweinwyr wrthym nad oes pwyllgor yn bodoli ar hyn o bryd ond eu bod yn awyddus i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon eto. Maent yn teimlo y byddent yn cael budd o gymorth ac arbenigedd ychwanegol ac maent yn awyddus i recriwtio aelodau posibl er budd y gwasanaeth a'i ddatblygiad yn y dyfodol.

Mae'r rheolwyr yn meithrin cydberthnasau gwerthfawr er budd y plant

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- galluogi mwy o ddewis rhydd i'r plant hynny nad ydynt yn barod i eistedd a byddai'n well ganddynt gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol;
- rhoi system ar waith er mwyn cofnodi unrhyw anafiadau sydd gan y plant eisoes pan fyddant yn cyrraedd y gwasanaeth;
- defnyddio archwiliad Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen Atal a Rheoli Heintiau er mwyn monitro arfer gorau o ran materion iechyd a hylendid;
- diweddaru hyfforddiant diogelu;
- newid cewynau yn y cyfleusterau toiled yn hytrach nag yn y brif neuadd;
- llunio asesiad risg ar gyfer y drws tân mewnol;
- llunio asesiad risg er mwyn dangos y camau a gymerir i ddiogelu plant rhag rheiddiaduron nad ydynt wedi'u gorchuddio;
- diweddaru'r asesiad risg ar gyfer chwarae yn yr awyr agored;
- diweddaru'r datganiad o ddiben ac anfon copi i AGC;
- ail-lunio'r adroddiad ar ansawdd y gofal er mwyn cynnwys gwerthusiad o'r gwasanaeth sy'n cynnwys barn y plant, y rhieni a'r staff yn ogystal â'r cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf;
- diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau cyffredinol a dderbyniwyd gan yr asiantaeth sy'n cefnogi'r gwasanaeth a sicrhau eu bod yn cyfeirio at y gwasanaeth yn benodol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn, wedi'i drefnu oedd hwn. Gwnaethom hefyd ystyried dau bryder y tynnwyd ein sylw atynt ac roeddem yn fodlon â'n canfyddiadau. Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd dros ddeuddydd am bedair awr bob dydd. Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a gânt drwy gydol y sesiynau gan ddefnyddio ein hadnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae hyn yn galluogi'r arolygwyr i arsylwi ar fywyd a'i gofnodi o safbwynt plentyn ac yn nodi sut mae'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir:

- gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r safle y tu mewn a'r tu allan;
- gwnaethom siarad â nifer o blant, pedwar rhiant, myfyriwr ar leoliad a dau aelod o'r staff, sef y person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb;
- gwnaethom edrych ar y wybodaeth a oedd gennym eisoes a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben, yr adroddiad ar ansawdd y gofal a'r adroddiad hunanasesu (SASS);
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg, dogfennau a pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'r polisi diogelu. Gwnaethom hefyd edrych ar ffeiliau dau aelod o'r staff a ffeiliau chwe phlentyn.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Catherine Sturman** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Pamela Lloyd** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-3 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9.30 a 13.30 o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol yn unig** |
| **Ieithoedd gweithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14 Ionawr 2014** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **25 a 26 Medi 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |